



Defnyddio meddyginiaethau didrwydded – gwybodaeth i gleifion a gofalwyr

Pam y rhoddwyd y daflen hon i mi?

Bydd y daflen hon yn rhoi gwybodaeth i chi am feddyginiaethau didrwydded, sy'n cynnwys meddyginiaethau "arbennig", a meddyginiaethau sy'n cael eu defnyddio'n wahanol i'w trwydded (oddi ar y label). Dylai helpu i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Darllenwch hi'n ofalus a siaradwch â'ch presgripsiynydd neu fferyllydd os oes gennych ragor o gwestiynau.

Enw'r feddyginiaeth: _____

Beth yw meddyginiaethau trwyddedig, didrwydded, meddyginiaethau 'arbennig' a meddyginiaethau a ddefnyddir oddi ar y label?

Rhaid i feddyginiaethau a werthir yn y DU gael awdurdodiad marchnata neu fod yn "drwyddedig". Rhoddir yr awdurdodiad hwn gan y rheoleiddiwr meddyginiaethau ar ôl gwirio ansawdd a diogelwch y feddyginiaeth, a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae'r drwydded yn disgrifio sut y dylid defnyddio'r feddyginiaeth gan gynnwys:

- pwy all ei chymryd;
- pa salwch y gellir ei defnyddio i'w drin;
- faint ddylid ei gymryd (y dos);
- ar ba ffurf y mae (e.e. tabled, capsawl, hylif).

Nid oes gan feddyginiaeth ddidrwydded drwydded y DU. Efallai ei bod wedi'i thrwyddedu dramor a'i mewnfario i'r DU, neu wedi cael ei gwneud yn arbennig (ac os felly, fe'i gelwir yn feddyginiaeth 'arbennig').

Os yw meddyginiaeth sydd â thrwydded y DU yn cael ei defnyddio'n wahanol i'r hyn a ddisgrifir yn ei thrwydded, gelwir hyn yn ddefnydd "oddi ar y label". Er enghraifft:

- trin salwch gwahanol;
- trin grŵp gwahanol o gleifion (e.e. plant neu yn ystod beichiogrwydd);
- defnyddio dos gwahanol.

Mae'r daflen hon yn defnyddio'r term "didrwydded" i ddisgrifio pob meddyginiaeth ddidrwydded, gan gynnwys meddyginiaethau 'arbennig' a meddyginiaethau a ddefnyddir oddi ar y label.

Pam y defnyddir meddyginiaethau didrwydded?

Fel arfer dim ond pan nad oes meddyginiaeth drwyddedig addas i drin eich



cyflwr y cewch bresgripsiwn am feddyginiaeth didrwydded. Mae'r penderfyniad i ddefnyddio meddyginiaeth didrwydded yn benderfyniad ar wneir y cyd rhyngoch chi a'ch presgripsiynydd. Bydd y person sy'n eich trin wedi ystyried y dewis gorau o ran meddyginiaeth, wedi trafod opsiynau gyda chi, a bydd yn adolygu hyn yn rheolaidd i sicrhau mai dyma'r opsiwn gorau i chi o hyd.

Mae'r rhesymau dros ddefnyddio meddyginiaeth didrwydded yn cynnwys:

- efallai nad yw meddyginiaeth drwyddedig ar gael eto;
- efallai bod y feddyginiaeth yn y broses o gael trwydded neu efallai ei bod yn dal i gael ei phrofi mewn treial clinigol;
- efallai mai prin yw'r wybodaeth sydd ar gael ynglŷn â thrin rhai cyflyrau penodol neu ynglŷn â rhai grwpiau cleifion;
- efallai y bydd angen cymryd y feddyginiaeth ar ffurf nad yw ar gael fel arfer (e.e. hylif), a rhaid ei gwneud yn arbennig yn ôl archeb;
- efallai bod prinder dros dro o'r feddyginiaeth drwyddedig;
- efallai bod gan y feddyginiaeth drwydded ond mae angen ei rhoi mewn ffordd didrwydded. Er enghraifft, malu tabledi i'w gwneud yn haws i'w llyncu.

A ddefnyddir meddyginiaethau didrwydded yn gyffredin?

Mae meddyginiaethau didrwydded wedi cael eu defnyddio'n eang yn aml ac mae eu heffeithiau yn hysbys iawn. Fodd bynnag, os bydd taflen gyda'r feddyginiaeth, efallai na fydd yn dweud unrhyw beth am y defnydd didrwydded. Nid yw hyn yn golygu na ellir ei defnyddio'n ddiogel i drin eich cyflwr - mae'n golygu nad oes gan y cwmni cyffuriau drwydded i'w defnyddio fel hyn ac ni chaniateir iddo hyrwyddo na rhoi gwybodaeth am y defnydd hwn.

Os ydych chi'n poeni am gymryd y feddyginiaeth, siaradwch â'ch presgripsiynydd neu fferyllydd am eich pryderon.

Os byddwch yn cael unrhyw effeithiau annymunol neu annisgwyl wrth gymryd y feddyginiaeth, dylech roi gwybod i'ch presgripsiynydd neu fferyllydd am hyn. Gallwch hefyd roi gwybod am unrhyw sgîl-effeithiau a amheuir wrth y Cynllun Cerdyn Melyn yn

<https://yellowcard.mhra.gov.uk/>

A ellir presgripsiynu meddyginiaethau didrwydded i blant?

Gellir. Mae angen profi meddyginiaethau mewn treialon clinigol i gael trwydded. Nid yw bob amser yn bosibl cynnal treialon clinigol mewn plant, yn enwedig os yw'r feddyginiaeth ar gyfer salwch prin. Felly, gall y presgripsiynydd ddewis meddyginiaeth didrwydded i drin eich plentyn.



Gall fod gan feddyginiaeth ddirwydded fanteision dros feddyginiaeth drwyddedig, er enghraifft:

- gallai fod ar ffurf y gall eich plentyn ei chymryd yn haws
- efallai y bydd y presgripsiynydd yn meddwl y bydd yn gweithio'n well ar gyfer salwch eich plentyn
- gall y feddyginiaeth ddirwydded fod yn fwy diogel nag un drwyddedig (er enghraifft, gallai fod yn ddi-alcohol)

Yn yr un modd â defnyddio meddyginiaethau didrwydded mewn oedolion, byddwch wedi cytuno ar yr opsiwn gorau ar gyfer eich plentyn gyda'r presgripsiynydd, a bydd y presgripsiwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau mai dyma'r opsiwn gorau o hyd.

A allaf gael meddyginiaeth ddirwydded gan bresgripsiynydd preifat?

Gallwch gael meddyginiaeth ddirwydded gan bresgripsiynydd preifat (er enghraifft optometrydd). Fodd bynnag, bydd angen i chi dalu am y feddyginiaeth. Siaradwch â'r presgripsiynydd a'ch fferylllydd cymunedol ynglŷn â faint mae hyn yn debygol o gostio. Bydd angen i chi ddweud wrth eich meddygfa, fel y gallant ychwanegu nodyn at eich cofnodion meddygol.

Sut gallaf gael rhagor o fy meddyginiaeth ddirwydded?

Os caiff eich meddyginiaeth ei phresgripsiynu gyntaf yn eich practis meddyg teulu a bod angen rhagor arnoch, mae'n debygol y bydd y practis yn darparu presgripsiwn pellach. Os caiff eich meddyginiaeth ei phresgripsiynu gyntaf yn yr ysbyty, efallai na fydd hynny'n bosibl ac efallai y bydd angen i chi gael cyflenwadau pellach gan yr ysbyty. Os yw'ch meddyginiaeth wedi'i phresgripsiynu gan bresgripsiynydd anfeddygol, fel fferylllydd neu optometrydd, cysylltwch â nhw yn gyntaf. Ym mhob achos, cadarnhewch gyda'r presgripsiynydd sut y byddwch yn cael gafael ar gyflenwadau pellach.

Ar ôl siarad â'ch presgripsiynydd a'ch fferylllydd, gwnewch nodyn o pryd y mae angen i chi archebu mwy o'ch meddyginiaeth. Dylech wirio dyddiad dod i ben eich meddyginiaeth gan y gall hyn effeithio ar ba mor aml y mae angen i chi ei harchebu. Yn aml mae gan feddyginiaethau didrwydded ddyddiadau dod i ben byr. Mae hyn yn golygu efallai na fydd yn bosibl archebu symiau mawr i'w cadw yn y fferyllfa neu yn eich cartref. Os ydych eisoes yn cymryd meddyginiaethau eraill a bod gennych bresgripsiwn amlroddadwy, efallai y bydd angen i chi archebu'r feddyginiaeth ddirwydded ar amser gwahanol.

Gall gymryd mwy o amser i'r fferyllfa gael gafael ar feddyginiaeth ddirwydded pan fydd ei hangen arnoch. Yn dibynnu ar y feddyginiaeth, gall



hyn fod hyd at bythefnos neu fwy. **Dylech ddweud wrth y fferyllfa mewn da bryd cyn i chi redeg allan.**

Beth os byddaf yn colli, yn dinistrio, neu'n rhedeg allan o fy meddyginiaeth ddirwydded?

Os nad oes gennych unrhyw feddyginiaeth yn weddill, siaradwch â'ch fferylllydd. Gall roi cyngor ar beth i'w wneud, ac a allwch gael gafael ar gyflenwad brys o'r feddyginiaeth. **Peidiwch â chymryd unrhyw feddyginiaeth a allai fod wedi'i pheryglu (e.e. wedi'i dod allan o'r cynhwysydd neu ei difrodi).**

Beth ddylwn wneud os bydd y fferyllfa yn dweud wrthyf y bydd oedi mewn cyflenwi fy meddyginiaeth ddirwydded?

Os oes gennych ddigon o'r feddyginiaeth i bara hyd nes y gall y fferyllfa drefnu mwy o gyflenwadau, ni fydd angen i chi wneud unrhyw beth. Fodd bynnag, os credwch y gallai'r oedi olygu y byddwch yn rhedeg allan o'ch meddyginiaeth, rhowch wybod i'ch presgripsiynydd oherwydd efallai y bydd angen iddo/iddi eich monitro hyd nes y gellir darparu cyflenwadau pellach. **Peidiwch â chymryd llai o feddyginiaeth na'r hyn a argymhellir oni bai eich bod yn trafod hyn gyda'ch presgripsiynydd yn gyntaf.**

A ddylwn i ddefnyddio'r feddyginiaeth ar ôl ei ddyddiad dod i ben os na allaf gael mwy o gyflenwadau mewn pryd?

Yn gyffredinol, ni ddylech ddefnyddio unrhyw feddyginiaeth ar ôl y dyddiad dod i ben. I ddarganfod beth fyddai'r peth mwyaf diogel i chi ei wneud, siaradwch â'ch fferylllydd neu bresgripsiynydd.

Mae fy mhresgripsiynydd wedi penderfynu peidio â pharhau â'r presgripsiwn ar gyfer y feddyginiaeth ddirwydded a roddwyd gan yr ysbyty, beth ddylwn ei wneud?

Os ydych wedi cael presgripsiwn am feddyginiaeth ddirwydded drwy'r ysbyty ac nad yw presgripsiynydd yn eich meddygfa yn teimlo y gall gymryd cyfrifoldeb am ysgrifennu presgripsiwn ar gyfer cyflenwadau pellach, trafodwch y rhesymau gydag ef neu hi. Efallai y bydd presgripsiynydd arall yn y feddygfa yn fodlon cymryd cyfrifoldeb. Os nad oes unrhyw un a all gymryd cyfrifoldeb, cysylltwch â'r ysbyty lle y presgripsiwyd eich meddyginiaeth gyntaf ac efallai y gallant drefnu cyflenwadau pellach i chi.

Beth os nad wyf am dderbyn meddyginiaeth ddirwydded?

Dim ond os ydych chi a'ch presgripsiynydd wedi cytuno mai dyma'r driniaeth orau i chi y cewch bresgripsiwn am feddyginiaeth ddirwydded. Fodd bynnag, os nad ydych yn hapus, gallwch drafod eich opsiynau gyda'ch tîm



presgripsiynu neu'ch fferyllydd.

Gyda rhai meddyginiaethau didrwydded mae'n rhaid i chi roi caniatâd ysgrifenedig cyn i chi ddechrau eu cymryd. Gallwch newid eich meddwl ynglŷn â hyn unrhyw bryd.

Sut allaf gael rhagor o wybodaeth?

Os ydych yn bryderus, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am feddyginiaethau didrwydded, siaradwch â'ch fferyllydd neu bresgripsiynydd.

Mae gwefan y GIG hefyd yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth am feddyginiaethau trwyddedig a didrwydded. Ar gael yn:

<https://www.nhs.uk/conditions/medicines-information/>

Gellir dod o hyd i daflenni gwybodaeth ynglŷn â ddefnyddio meddyginiaethau didrwydded gyda phlant, sydd wedi'u hanelu'n benodol at rieni ar wefan Meddyginiaethau i Blant: <https://www.medicinesforchildren.org.uk/>

Gallwch gysylltu â Gwasanaeth Cyngor Meddyginiaethau Cymru. Ar gael yn: <https://www.wmic.wales.nhs.uk/>

Gweld y daflen hon ar eich ffôn:

